# Cynllun Sero Net 2030 y Brifysgol Agored yng Nghymru

Ystadau / Mehefin 2025

The Open University

# Y Brifysgol Agored yng Nghymru - Cynllun Carbon Sero Net 2030

## Cyflwyniad

Mae Cynllun Carbon Sero Net 2030 y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cyd-fynd â'r polisi Carbon Sero Net, gan amlinellu llwybr i gyflawni'r ymrwymiad Sero Net 2030 yng Nghymru.

## Cwmpas

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithredu ar draws pedair gwlad: Cymru, Lloegr, Iwerddon, a'r Alban. Mae polisi Carbon Sero Net ar waith ac mae'n berthnasol i holl safleoedd y Brifysgol Agored. I gefnogi hyn, mae Cynlluniau Carbon Sero Net 2030 wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael ag amgylchiadau a gofynion unigryw pob ardal.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net ar gyfer holl allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 erbyn 2030. Ar gyfer allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3, mae'r dyddiad targed wedi ei osod ar gyfer 2050. Mae prosesau sefydledig eisoes ar waith i fonitro a lleihau allyriadau Cwmpas 1 a 2 ar draws pob lleoliad. Ar hyn o bryd, y prif ffocws ar gyfer allyriadau Cwmpas 3 yw datblygu gwaelodlin cadarn a chywir i lywio strategaethau lleihau yn y dyfodol.

- Cwmpas 1: allyriadau uniongyrchol o ymlosgiad tanwydd seiliedig ar garbon, cerbydau fflyd ac allyriadau sy'n ffoi, e.e oeryddion o system oeri ganolog. Noder: nid oes unrhyw gerbydau fflyd yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.
- Cwmpas 2: allyriadau anuniongyrchol sy'n deillio o drydan a brynwyd
- Cwmpas 3: yr holl allyriadau eraill yng nghadwyn gyflenwi/gwerth y Brifysgol, sy'n deillio'n benodol o; staff yn gweithio gartref, nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (y mae'r rhai digidol a hedfan yn ddwys o ran carbon ac yn uchel o ran gwariant), teithio busnes, gweithwyr yn teithio, gwaredu gwastraff, trafnidiaeth a dosbarthu (ar ddechrau a diwedd y gadwyn gyflenwi), asedau ar brydles a breintiau a buddsoddiadau.


| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd Gan: SLT; SSG; VCE y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| Yn weithredol o: Mehefin 2025 | Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2026 |

## Egwyddorion Carbon Sero Net

Mae'r Cynllun Sero Net 2030 yn sefydlu 2020/21 fel y flwyddyn waelodlin. Mae'r waelodlin ddiwygiedig hon yn cyd-fynd â **Chynllun Strategol Dysgu a Byw y Brifysgol Agored** ac yn adlewyrchu model gweithredol ôl-Covid y Brifysgol yn fwy cywir, gan gynnwys mabwysiadu dull gweithio deinamig.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch yr egwyddorion **hierarchaeth ynni**, sy'n arwain ynni cynaliadwy ar draws ystâd y Brifysgol:

- **Lleihau / Osgoi Ynni**: Blaenoriaethu defnydd effeithiol o le, ymgorffori strategaethau dylunio goddefol, a gwella deunydd adeiladu i leihau'r galw am ynni ar gyfer gwresogi ac oeri.
- **Defnyddio Ynni'n Effeithlon**: Uwchraddio systemau mecanyddol a thrydanol i ymgorffori technolegau ynni-effeithlon a rheolyddion uwch.
- **Defnyddio Ynni Gwyrdd:** Buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle a sicrhau trydan adnewyddadwy oddi ar y safle drwy gontractau cyflenwi pwrpasol.

## Cynllun Sero Net y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn adeilad swyddfa modern a adeiladwyd yn 2006, sy'n cynnwys pedwar llawr gydag ardal fewnol gros o 1,808 m². Wedi'i leoli yng nghanol Dinas Caerdydd, mae Custom House yn elwa o fynediad rhagorol at yr orsaf drenau yn ogystal â'r brif orsaf fysiau.

Yn 2024, cafodd yr adeilad ei adnewyddu'n sylweddol er mwyn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Brifysgol a'i ffyrdd datblygedig o weithio.

| Mesur | Categori | Statws |
|---|---|---|
| Patrymau gweithio hybrid ac arferion rhannu desgiau hyblyg - Lleihawyd nifer y desgiau o 141 i 87 | Lleihad o ran galw / Defnydd o le | Cwblhawyd |
| Cynyddwyd capasiti'r ystafell gyfarfod o 11 i 15, ac ychwanegwyd nifer o seddi cyfforddus a dodrefn neilltuedig i annog cydweithio a defnydd hyblyg o le. | Lleihad o ran galw / Defnydd o le | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| Cafodd yr Anecs, a osodwyd ar brydles yn flaenorol er mwyn darparu ardal gyfarfod ychwanegol, ei ryddhau, gan fod yr holl gyfleusterau angenrheidiol bellach wedi'u cynnwys o fewn y prif adeilad. | Lleihad o ran galw | Cwblhawyd |
| Uwchraddio'r gwydr | Lleihad o ran galw | Angen achos busnes |
| Gosod systemau goleuo LED gyda rheoliadau uwch | Effeithlonrwydd Ynni | |
| Uwchraddio i unedau aerdymheru cylch gwrthdro effeithlonrwydd uchel | Effeithlonrwydd Ynni | Cwblhawyd |
| Uwchraddio Systemau Rheoli Busnes (BMS) ar gyfer monitro a rheoli gweithredol gwell | Effeithlonrwydd Ynni | Cwblhawyd |
| Gosod system PV solar ar ben to (14.5 kWp) gyda lle i storio batri | Ynni Adnewyddadwy | Cwblhawyd |
| Gwefru cerbyd trydanol (EV) | Effeithlonrwydd ynni | Cwblhawyd |
| Gosod Solar PV | Ynni adnewyddadwy | Cwblhawyd |
| Cyflenwad trydan 100% adnewyddadwy drwy gytundeb prynu pŵer. | Ynni adnewyddadwy | 2029-30 |

Noder: Mae’r adeilad yn gweithredu’n gyfan gwbl heb nwy.

Fel adeilad cyfan gwbl drydanol gyda solar PV, cyflawnir y llwybr at Sero Net drwy gaffael trydan 100% adnewyddadwy drwy gytundeb prynu pŵer 100% adnewyddadwy.

## Olrhain Carbon

Fel adeilad cyfan gwbl drydanol, mae Custom House yn adrodd allyriadau Cwmpas 2 yn unig, gweler y siart isod. Bu lleihad sylweddol mewn allyriadau yn 2023-24 o ganlyniad i gau’r adeilad ar gyfer gwaith adnewyddu o fis Chwefror i fis Gorffennaf 2024. Er y disgwylir i allyriadau godi yn y flwyddyn ganlynol o

gymharu â 2023-24, rhagwelir y byddant yn aros oddeutu 20% yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn 2022-23.




## Polisïau cysylltiedig

Mae polisïau, strategaethau a chynlluniau sy'n gysylltiedig â Chynllun Carbon Sero Net 2030 yn cynnwys:

- Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Polisi Carbon Sero Net 2030
- Polisi Adeiladu Cynaliadwy
- Polisi Dŵr
- Polisi Gwastraff ac Adnoddau
- Cynllun Rheoli Gwastraff ac Adnoddau
- Polisi Bwyd Cynaliadwy ac Arlwyo

## Monitro ac adolygu

| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd Gan: SLT; SSG; VCE y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| Yn weithredol o: Mehefin 2025 | Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2026 |

Mae'r Polisi Sero Net 2030 a'r Cynlluniau Sero Net cenedlaethol yn berchen i Ystadau'r Brifysgol Agored. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol, a bydd y cynnydd ar dargedau yn cael eu hadrodd i Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol Agored yng Nghymru, y Gweithgor Cydlynu Cynaliadwyedd a Thîm Gweithredol yr Is-ganghellor. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r mesurau lliniaru Adrodd ar Berfformiad Sefydliadol a'r Gofrestr Risg Strategol, sy'n cael eu diweddaru'n chwarterol.

Llofnodwyd gan

Dorian Holloway, Cyfarwyddwr Ystadau

## Hanes y fersiwn

| Rhif y fersiwn | Dyddiad y newid | Cychwynnwr y newid (teitl) | Disgrifiad o'r newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Mehefin 2025 | Rheolwr Ynni | Cynllun Sero Net 2030 newydd y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| | | | |

Dyddiad adolygu nesaf: Mehefin 2026